**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Peredur,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Yn ystod y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 29 Tachwedd 2022, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau mewn mwy o fanylder ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion eich Pwyllgor.

Mae argymhelliad 1 yn gofyn inni ddiweddaru’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn rhoi costau enghreifftiol sy’n seiliedig ar y data cyfredol/y rhagolwg o ran chwyddiant. Rwy’n cadarnhau ein bod yn derbyn yr argymhelliad hwn ac y byddwn yn diweddaru’r dadansoddiad i adlewyrchu chwyddiant a chytundebau cyflog perthnasol ers i’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei lunio yn wreiddiol.

Mae argymhelliad 2 wedi ei dderbyn – ond wedi’i dderbyn dim ond mewn egwyddor – gan ei fod yn ymwneud â materion sy’n ehangach na’r Bil hwn yr wyf yn gyfrifol amdano fel Gweinidog arweiniol. O ystyried cwmpas eang yr argymhelliad, mae wedi’i rannu â chyd-weithwyr yn y Cabinet, a gofynnwyd i Drysorlys Cymru ystyried beth fyddai’r ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth ariannol atodol sy’n cynnwys chwyddiant prisiau cyffredinol mewn Memoranda Esboniadol yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn cael ymateb llawn ar y mater hwn maes o law.

Mae argymhelliad 3 wedi’i wrthod. Fel y soniais yn ystod y ddadl, mae cyfyngiad ar yr hyn y mae modd ei gyflawni o ran amcangyfrif costau a manteision posibl newidiadau deddfwriaethol o’r math hwn. Ni allwn nodi i ba raddau y mae awdurdodau contractio eisoes yn ymgymryd â chaffael cymdeithasol gyfrifol, felly mae prisiau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar ein hasesiad o’r gwaith a fyddai ei angen i adolygu dogfennau a phrosesau presennol ac i wneud y newidiadau angenrheidiol. Er hynny, ymrwymais hefyd yn ystod y ddadl i ddarparu diweddariad ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sydd mor drylwyr â phosibl yn yr amser a ganiateir, rhwng nawr a’r dyddiad ailosod cyn Cyfnod 3. Yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhan o’r gwaith hwnnw byddwn yn edrych a oes unrhyw ffordd o ddarparu mwy o fanylder mewn perthynas â Rhan 3 o’r Bil.

Mae argymhelliad 4 yn gofyn i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth yr Alban i weld a ddysgwyd unrhyw wersi ynghylch yr effaith o ran cost a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau hynny. Derbyniais yr argymhelliad hwn ar y sail ein bod ni eisoes wedi ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban i drafod y costau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â'i deddfwriaeth gaffael, a gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth hon wedi'i defnyddio i ddatblygu'r prisiau a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae argymhelliad 5, sy'n cael ei dderbyn, yn argymell ein bod yn “gwneud rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif costau a manteision y Bil cyfan unwaith y bydd y data perthnasol ar gael, a dylid cynnwys yr wybodaeth hon yn yr adolygiad a gaiff ei lunio ar ôl gweithredu’r Bil”. Gallaf gadarnhau y bydd y costau a’r manteision yn cael eu hystyried, cyn belled ag y bo modd, yn rhan o'n gwaith o adolygu ar ôl i’r Bil gael ei weithredu.

O ran argymhelliad 6, yr ydym hefyd yn ei dderbyn, mae'n bwysig fy mod yn glir gyda'r Pwyllgor: rydym yn cytuno bod rhaid i unrhyw ofynion ychwanegol a roddir ar fusnesau fod yn gymesur (mae'r dyletswyddau caffael wedi cael eu dylunio'n fwriadol mewn ffordd sy'n darparu iddynt gael eu cymhwyso'n gymesur), ond bydd rhaid talu am y gofynion diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â deilliannau cymdeithasol gyfrifol, felly bydd angen eu ffactorio i gostau mewn ceisiadau. Yn anochel, mae hyn yn golygu y bydd rhaid trosglwyddo rhywfaint o gostau cynyddol i'r cwsmeriaid.

Derbynnir argymhelliad 7 mewn egwyddor. Nid y ddeddfwriaeth hon fydd yr unig ddylanwad achosol ar nifer y rhai sy’n manteisio ar y cyflog byw gwirioneddol dros amser. O’r herwydd bydd yn amhosibl gwahaniaethu rhwng effaith y Bil a'r ffactorau niferus eraill sydd ar waith. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ymarfer ar wahân i asesu nifer y rhai sy'n manteisio ar y cyflog byw gwirioneddol ochr yn ochr â'n gwaith adolygu ôl-weithredu.

Mae argymhelliad 8 yn gofyn inni ddarparu cymorth yn benodol i fusnesau bach a chanolig i'w galluogi i gymryd rhan mewn contractau. Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cadarnhau bod hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo iddo.

Yn y ddadl dywedais na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu derbyn argymhelliad 9 am nad oes modd dadansoddi effaith y ddyletswydd rheoli contractau adeiladu ar fusnesau bach a chanolig yn yr amser sydd ar gael. Nid ydym eto wedi datblygu manylion yr hyn fydd yn ofynnol gan y dyletswyddau rheoli contractau adeiladu, felly ni allwn ddadansoddi'r effaith bosibl i raddau pellach nag ydym eisoes wedi'i wneud – mae’r manylion hynny wedi’u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

O ran argymhelliad 10, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad ar estyn y ddyletswydd llesiant i gyrff cyhoeddus datganoledig newydd yn fuan. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cael ei lunio mewn perthynas ag unrhyw reoliadau a allai fod yn ofynnol o ganlyniad. O ran cyllid Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, deallaf fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthi’n ystyried yr amcan statudol gan swyddfa'r Comisiynydd yn rhan o drafodaethau sy’n mynd rhagddynt ynghylch y gyllideb. Os penderfynir bod angen cyllid ychwanegol ar y Comisiynydd i gefnogi'r cyrff ychwanegol arfaethedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant, byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyfleu i'r Pwyllgor.

I gloi, rwy’n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad 11 ac y bydd yn cynnwys asesiad canol tymor yn amlinellu costau ariannol yn rhan o’r gwaith gwerthuso ôl-weithredu.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth yn y llythyr hwn o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Er gwybodaeth, mae copïau ynghlwm o'r llythyrau yr wyf wedi'u hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgorau hynny hefyd.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership